

Blaenoriaeth 3 ERDF: Ynni Adnewyddadwy ac Effeithlonrwydd

Amcanion Penodol

- Cynyddu nifer y dyfeisiau ynni tonnau a llanw sy'n cael eu profi yn nyfroedd Cymru
- Cynyddu nifer y cynlluniau ynni adnewyddadwy bychan sy'n cael eu sefydlu
- Cynyddu ynni stoc tai Cymru, yn enwedig mewn ardaloedd o dlodi tanwydd

Prosiect Minesto

Mae Dyfnder Caergybi yn nodi man cychwyn diwydiannu technoleg ynni morol unigryw Minesto, Deep Green. Mae'n brosiect ar raddfa wasanaethu a'r prosiect ynni morol cyflymder isel cyntaf yn y byd.

Bydd datblygu Dyfnder Caergybi yn drefniant ynni morol masnachol yn cael ei gyflawni yng nghanau 1 a 2.

Menter Môn – Morlais, Cydsyniad, Datblygiad ac Isadeiledd (Cam 1 a 2)

Mae Morlais yn cael ei redeg gan fenter gymdeithasol Menter Môn ac mae'n brosiect ynni ffrwd llanw. Bydd yn cynhyrchu trydan glân o un o'r adnoddau llanw cryfaf i bweru cartrefi pan fydd yn gweithio'n llawn.

Nova Innovation Ltd – Prosiect Enlli (Cam 1 a 2)

Darparu amrywiaeth o ddyfeisiau llanw yn y môr yn cynhyrchu trydan adnewyddadwy lleol fydd yn creu manteision sylweddol i bobl a chymunedau lleol. Bydd yn ymgorffori Tyrbin Llanw Gyriant Uniongyrchol, canolbwynt ynni morol arloesol dan y môr; a dull storio ynni i gysylltu â'r galw.